

Mae ein tirwedd yn cyfrannu £9 biliwn i'r economi Gymreig bob blwyddyn ac yn darparu cyflogaeth ar gyfer 1 o bob 6 o bobl. Eto yr ydym yn ddidrugaredd yn disgwyl cymaint mwy gan ein tirwedd. Yr ydym fel petaem ni'n hollol benderfynol o'i lygru drwy yrru ffyrdd newydd drwy bob hafn a dyffryn ar ei wyneb hardd.

Yr ydym yn anharddu ei gymeriad gyda chwareli ac yn tarfu ar ei breifatrwydd trwy daenu pob math o orsafoedd ynni a gwifrau trydan ar ei draws. Ai dyma'r ffordd y dylem drin hen gyfaill a chynhaliwr? Nid rhywbeth i'w brynu a'i werthu yw tirwedd Cymru, mae'n rhy werthfawr. Wrth i ni wneud hynny yr ydym yn dwyn oddi wrthym ni'n hunain, ac yn fwy pwysig, oddi wrth ein hwyrion a'n hwyresau.

Oni ddylid gofalu am rywbeth sydd mor werthfawr mewn modd cydnaws a sensitif? Mae'n rhaid i ni arwain newidiadau mewn ffordd sy'n darparu ond nid yn distrywio. Mae'n bryd i ni ailgylchu y tirweddau hynny sydd wedi cael eu hesgeuluso a gwella'r rhai sy'n dal heb eu niweidio. Lle nad oes tir agored... 'does dim golygfeydd. Lle nad oes cymunedau gwledig ... 'does dim hiraeth. Os nad oes pwrpas i fywyd gwledig...ni fydd gennym ni unrhyw ddoethineb na thraddodiad i'w drosglwyddo. Heb weledigaeth gyfrifol... 'does gennym ni ddim dyfodol!! Mae ein dyfodol a thynged ein tirweddau yn ein dwylo ni.

**"Mae Cymru'n cyfri i mi... a yw hi i ti?"** a'i ddathliad o'r Gymru wledig, yw'r man cyfarfod eithaf ar ein cyfer ni i gyd a'n hamgylcheddau. Yr ydym yn hyderus y byddwn, drwy ail-gynnau dychymyg pobl Cymru ynglŷn â'u hymwybyddiaeth o bwysigrwydd lle, yn tanio awydd cenedlaethol i warchod a gwella gwerth ein trysorau fel cenedl...tirweddau'r Gymru wledig.

Bu YDCW, drwy ei haelodau ym mhob cwr o Gymru, yn hyrwyddo y neges hon am dros 75 mlynedd a bydd yn parhau i wneud hynny gyda chefnogaeth ei chyfeillion niferus am flynyddoedd i ddod. Mae'r geiriau a'r delweddau yn adlewyrchu ystod y gefnogaeth i'n neges. Y ffordd orau i'r gefnogaeth honno dyfu ac ymestyn yw eich bod chi yn ymuno â ni i gydnabod y mannau hynny sy'n gwneud Cymru'n arbennig.

Our environment is worth £9 billion to the Welsh economy each year and brings employment for 1 in 6 people. Yet we mercilessly expect it to give us so much more. We seem determined to degrade its complexion by driving roads through every available fold and wrinkle across its smiling face.

We injure its contours by pit marking it with quarries and humiliate its privacy by unceremonially festooning it with power stations of all shapes and sizes and garlands of transmission lines. Is this the way to treat a faithful provider and lifelong companion? The gift of Welsh landscapes are not commodities to be traded and squandered, they are too precious. When we do so, we are doing little more than cheating on ourselves and more importantly on our grandchildren.

Anything of such value should surely be guaranteed careful and sensitive stewardship? We need to guide change in a way, which provides but does not destroy. We need to recycle those landscapes which have suffered from neglect and enhance those which remain untarnished. Where there are no wide open spaces... there are no vistas. When there are no rural communities... there is no hiraeth. If there is no rural purpose... we have no wisdom or heritage to hand on. Without responsible perspectives... we have no future!! Our destiny and that of our landscapes is in our own hands.

**"I care for Wales...do you ?"** and its celebration of rural Wales, is the ultimate meeting place for each of us and our respective surroundings. We feel confident that in rekindling Welsh people's imagination for their own sense of place, we can generate a collective desire to safeguard and enhance the value of our national treasures... our Welsh rural landscapes.

CPRW through its members, has been championing this message for the last 75 years in every corner of Wales. The words and images in this booklet, reflect the breadth of support for our message. The best way that support can grow and spread is for you to join with us in recognising those places, which make Wales special.



# 'Rwyn caru Cymru... wyt ti?









Dewch i ddathlu'r tirweddau drwy ddysgu amdanynt a deall y straeon y maent yn eu hadrodd.

Treuliwch beth amser ac egni yn eu gwneud yn lefydd gwell oherwydd trwy wneud hynny yr ydych yn dyfeisio eich dyfodol eich hunain ... ac yn ymuno â'r rhai hynny sydd eisoes yn gwneud hynny.

Medrwch ymuno â ni www.cprw.org.uk neu dychwelwch ein ffurflen ymaelodi. Am £2, neu fwy os y dymunwch, dewch yn "Ofalwr dros Gymru"

Ar yr un pryd fe fyddwn yn rhoi gwybod i chi sut y medrwch chi wneud rhywbeth a fydd yn gwneud gwahaniaeth, ac o gymorth i warchod a gwella yr hyn sy'n bwysig i chi.

Ymgyrch yr YDCW
Cyswllt Peter Ogden, Cyfarwyddwr
Sioned Humphreys,
Dirprwy Gyfarwyddwr

Celebrate the landscapes of Wales by learning about them and understanding the stories they tell.

Invest a little time and effort in making them better places because by so doing you are inventing your own future ... and joining those who are already doing so.

Join us any time at www.cprw.org.uk or return our registration form. For £2, more if you wish, become a "Carer for Wales"

In return we will let you know how you can do something, which makes a difference, and help protect and enhance what is important to you.

Campaign promoted by CPRW
Contact Peter Ogden, Director
Sioned Humphreys, Deputy Director



# "I care for Wales...do you?"